Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Grwpiau Craidd – Gwybodaeth i Ymarferwyr

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Craidd yn grŵp o'r holl ymarferwyr a'r aelodau teuluol perthnasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu, gweithredu ac adolygu cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Mae gan bob aelod o'r grŵp craidd gyfrifoldeb i fonitro'r cynllun i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plentyn. Pan fo grwpiau craidd yn gweithio'n dda, medrent gyflawni newidiadau mawr i blant a'u teuluoedd.

## Pam ydw i yn aelod o'r Grŵp Craidd?

Byddwch yn aelod o'r grŵp craidd oherwydd eich bod yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu ac oherwydd bod gennych rhywbeth i'w gyfrannu yn eich rôl broffesiynol. Hyd yn oed os yw eich cyfraniad yn fychan, bydd yn rhan bwysig o'r broses o hyd. Bydd aelodau'r grŵp craidd yn cael eu henwi yn y gynhadledd achos gyntaf.

## Mae fy ngwaith gyda'r oedolion yn y teulu – pam fo angen i mi fod yn y Grŵp Craidd?

Efallai bod ffocws eich gwaith gyda'r oedolion yn y teulu – yn achos gweithwyr iechyd meddwl oedolion, camddefnyddio sylweddau gwasanaeth prawf a chamdriniaeth ddomestig er enghraifft. Bydd gennych rôl bwysig o ran asesu gallu'r rhieni ac anghenion cefnogi'r rhieni.

Bydd gennych hefyd wybodaeth berthnasol a rôl wrth weithio gyda'r teulu a allai fod yn holl bwysig o ran amddiffyn y plentyn. Mae gan holl aelodau'r grŵp craidd wybodaeth a sgiliau arbenigol sy'n cyfrannu tuag at arferion gorau gyda phlant a theuluoedd.

## Pryd a lle bydd y Grŵp Craidd yn cyfarfod?

Bydd dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer cyfarfod cyntaf y grŵp craidd yn cael ei gytuno ar ddiwedd y gynhadledd gyntaf. Sicrhewch eich bod yn rhannu eich manylion cyswllt gydag aelodau eraill y grŵp craidd ar ddechrau cyfarfod cyntaf y grŵp.

Mae trefniadau amddiffyn plant yn nodi y dylai'r grŵp craidd gyfarfod gyntaf o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd achos gyntaf. Dylid pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a dylai'r grŵp craidd barhau i gyfarfod yn fisol ond heb fod yn fwy na 6 wythnos ar wahan hyd at ddyddiad y gynhadledd adolygu gyntaf.

Dylid cynnal y cyfarfodydd mewn man sy'n gysurus, yn hygyrch i bawb a sy'n caniatau preifatrwydd.

# Grwpiau Craidd – Gwybodaeth i Ymarferwyr

## Beth yw'r peth cyntaf sydd angen i mi ei wneud fel aelod o'r Grŵp Craidd?

- Nodwch ddyddiad y gynhadledd adolygu gyntaf gan y bydd angen i'r grŵp craidd adrodd yn ôl ar gynnydd gyda'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth ar y dyddiad hwnnw.
- Hysbyswch eich rheolwr atebol eich bod nawr yn aelod o'r grŵp craidd ac y bydd angen rhoi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd y grŵp craidd.

## Beth fydd yn digwydd yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Craidd?

- Erbyn y cyfarfod cyntaf, dylech fod wedi derbyn copi o argymhellion y gynhadledd gyntaf, a ddylai gynnwys cynllun amlinell amddiffyn gofal a chymorth. Mae angen i chi ddarllen y rhain.
- Yng nghyfarfod cyntaf y grŵp bydd angen i chi gyflwyno eich hunan, a bod yn glir ynglŷn â'ch rôl broffesiynol a'ch cyfrifoldebau, beth rydych yn ei wneud a beth fydd eich rôl chi gyda'r plentyn a'r teulu.
- Yn y cyfarfod cyntaf hwn rhaid datblygu'r cynllun amddiffyn amlinell yn gynllun manwl i amddiffyn y plentyn.
- Mae angen cadeirio'r grŵp yn effeithiol a gellir gwneud hyn gan unrhyw aelod proffesiynol o'r grŵp craidd. O fewn y grŵp craidd, bydd angen cadeirydd a person i gymryd y cofnodion. Rhaid i'r person hwnnw fod yn berson ar wahân i'r un sy'n cadeirio'r cyfarfod.
- Amcan sylfaen y cyfarfod cyntaf yw datblygu'r cynllun amlinell yn gynllun amddiffyn manwl a sicrhau bod gan bob aelod o'r grŵp craidd syniad clir o bwrpas a thasgau. Yn ychwanegol at ymgymryd ag asesiad craidd a rhannu gwybodaeth, mae angen hefyd canolbwyntio ar ganlyniadau cymunol a'r camau sydd angen eu cymryd i gyflawni'r rhain.
- Erbyn diwedd y cyfarfod cyntaf, dylech fod yn glir ynglŷn â'r tasgau rydych yn gyfrifol amdanynt. Dylai holl aelodau eraill y grŵp craidd, yn enwedig y teulu, hefyd fod yn glir ynglŷn â'ch tasgau chi a'u tasgau hwy.
- Dylid cofnodi copi o'r cynllun manwl a'i ddosbarthu i holl aelodau'r grŵp craidd. Rhaid anfon copi at gadeirydd y gynhadledd.

## Pa gyfrifoldebau eraill sydd gennyf fel aelod o'r Grŵp Craidd?

**Mynychu** cyfarfodydd y grŵp craidd – sy'n hanfodol. Os na fedrwch fynychu dylech anfon cynrychiolydd o'ch asiantaeth neu anfon adroddiad ysgrifenedig. Dylech adael i'r gweithiwr cymdeithasol wybod os na fedrwch fynychu a sicrhau eich bod yn cael dyddiad y cyfarfod nesaf. I gynllun amddiffyn gofal a chymorth weitho, mae'n hanfodol bod holl aelodau'r grŵp craidd yn chwarae rhan lawn ac yn dangos eu hymrwymiad i amddiffyn y plentyn. Os oes achlysur lle na all y gweithiwr cymdeithasol fynychu, ond gall yr aelodau eraill, dylid cynnal y cyfarfod gyda arweinydd ymarfer yn cadeirio'r cyfarfod. Dylid ond canslo cyfarfod os nad oes unrhyw opsiwn arall.

# Grwpiau Craidd – Gwybodaeth i Ymarferwyr

**Chwarae rhan** – efallai bydd eich cyfraniad ar ffurf asesiad, gan gynnwys cwblhau'r asesiad craidd. Efallai hefyd y byddwch yn darparu gwybodaeth neu weithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn a'r teulu. Bydd gennych hefyd rôl weithgar i'w chwarae o ran y cynllun amddiffyn.

**Rhannu gwybodaeth** – bydd gan eich asiantaeth chi ei rheolau ei hun ynglŷn â rhannu gwybodaeth, a byddwch yn gyfarwydd gyda gweithio o fewn y ffiniau hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod aelodau'r grŵp craidd yn gyfforddus ynglŷn â rhannu gwybodaeth er budd y plentyn. Nid yw'r gyfraith yn aml yn rhwystr i ddatgelu gwybodaeth ac mae diddordeb y cyhoedd mewn amddiffyn plant bob amser yn bwysicach na diddordeb y cyhoedd mewn cynnal cyfrinachedd neu gael caniatad gan deuluoedd.

**Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth** – mae holl aelodau'r grŵp craidd yn gyfrifol am y cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Dylai gynnwys canlyniadau dymunol i'r plentyn a'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hynny. Rhaid i chi sirchau bod y cynllun yn un CAMPUS h.y.

**Cyraeddadwy** – tasgau y gall aelodau'r teulu ac eraill eu cyflawni
**Amser wedi'i bennu** – rhaid bod yr amserlen yn addas i'r plentyn
**Mesuradwy** – targedau clir y gellir eu mesur
**Penodol** – yn glir yn ei amcanion
**Uchelgeisiol –** cydnabod y gall newid fod yn raddol
**Synhwyrol** – rhaid bod mewn graddfa amser i'r plentyn

Wrth adolygu cynnydd ar y cynllun amddiffyn gofal a chymorth, dylai aelodau'r grŵp craidd sicrhau nad ydynt yn mesur gwaith a wnaed yn unig (gweithgaredd) ond mesur hefyd y canlyniadau ar gyfer y plentyn.

Dylech gyfeirio at brotocol y grŵp craidd am wybodaeth bellach ar eich cyfrifoldebau fel aelod o'r grŵp craidd.

## Arwyddion o Ddiogelwch (Signs of Safety)

Calon y broses Arwyddion o Ddiogelwch yw asesiad risg a fformat cynllunio achos sy'n ystyrlon ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'r rhieni a phlant. Un o'r heriau mwyaf yn ymarfer amddiffyn plant yw bod prosesau asesu a chynllunio yn rhoi braint i'r llais proffesiynol ac yn dileu safbwyntiau plant, rhieni ac aelodau eraill o'r teulu.

Mae'r broses asesu risg Arwyddion o Ddiogelwch yn integreiddio gwybodaeth gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth teulu lleol a diwylliannol, ac yn cydbwyso'r archwiliad trwyadl o berygl/ niwed ochr yn ochr â dangosyddion o gryfderau a diogelwch. Mae'r fformat Arwyddion o Ddiogelwch yn cynnig fformat asesu trylwyr ond eto syml y gall yr ymarferwr ei ddefnyddio i ennyn, mewn iaith gyffredin, safbwyntiau'r gweithiwr proffesiynol ac aelodau'r teulu ynghylch pryderon neu beryglon, cryfderau presennol, diogelwch a'r darlun o ddiogelwch. Mae'r fframwaith Arwyddion o Ddiogelwch yn integreiddio asesiad risg gyda chynllunio achosion a rheoli risg drwy ymgorffori ffocws ar gyfer y dyfodol o fewn

yr asesiad. Mae'r fformat hwn yn dyfnhau ac yn cydbwyso'r broblem dirlawnder arferol o ran fwyaf o asesiadau risg.

Mae’r meysydd allweddol canlynol yn cyfrannu at y crynodeb a’r dadansoddiad o risg wrth ddefnyddio’r arwyddion diogelwch: -

1. Ffactorau Perygl/Niwed Allweddol
2. Ffactorau amddiffynnol/cryfder
3. Meysydd Llwyd
4. Ffactorau sy’n Cymhlethu.

Yna byddwch yn defnyddio'r rhain i gyfrannu at y Cynllun/ Argymhellion Amddiffyn Gofal a Chymorth.

## Beth sydd angen i mi ei wneud i baratoi ar gyfer cynhadledd adolygu?

Mae angen i bod aelod o’r grŵp craidd ysgrifennu adroddiad ar gyfer y gynhadledd adolygu ar y cynnydd a wnaed yn eu maes hwy. Mae angen gwneud argymhelliad ynglŷn â pharhau gyda’r cofrestriad gan aelodau’r grŵp craidd, nid yn unig gan y gweithiwr cymdeithasol.

## Sut medraf sicrhau bod y plentyn a’r teulu yn chwarae rhan?

Mae cyfranogiad yn golygu mwy na mynychu cyfarfodydd y grŵp craidd yn unig. Fel aelod o’r grŵp bydd gennych gysylltiad gyda’r plentyn ac efallai gyda’r teulu hefyd. Bydd gennych gyfrifoldeb i esbonio i aelodau’r teulu eich rôl o fewn y grŵp craidd a gofyn iddynt hwy am eu barn. Dengys ymchwil bod gwaith cynllunio amddiffyn gofal a chymorth yn gweithio orau pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth a phlant a theuluoedd. Mae hyn yn golygu gofyn am eu barn, rhoi adborth ac esbonio’r broses.

Dylech ystyried a ddylai’r plentyn fynychu cyfarfod y grŵp craidd ac os na, sut gellir cynrychioli eu teimladau a’u dymuniadau - er enghraifft, llythyr ganddynt neu adroddiad ar eu rhan. Gellir hefyd roddi adborth ysgrifenedig i blant ac meant yn aml yn gwerthfawrogi hynny.

Mae’n fwy tebygol y bydd rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn parhau i gyfrannu os byddant yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt a bod eu barn yn derbyn parch, hyd yn oed os nad oes modd cytuno bob amser.

## Beth ddylwn ei wneud os ydw i’n pryderu nad yw’r cynllun amddiffyn gofal a chymorth yn gweithio a bod y plentyn mewn perygl niwed cynyddol?

Dylech drafod hyn yn uniongyrchol gyda’r gweithiwr cymdeithasol a/neu eich rheolwr atebol a chyflwyno tystiolaeth o’r pyder. Ceisiwch ddod i gytundeb ar y camau nesaf i ddelio a’ch pryderon.

# Grwpiau Craidd – Gwybodaeth i Ymarferwyr

Os na fedrwch ddod i gytundeb ynglŷn â’r ffordd ymlaen, yna mae angen i chi gysylltu â’ch rheolwyr atebol a chysylltu a chadeirydd y gynhadledd. Caiff unrhyw aelod o’r grŵp craidd ofyn am ail-alw’r gynhadledd os ydynt yn teimlo nad yw’r cynllun amddiffyn yn gweithio.

## Lle medraf gael mwy o wybodaeth?

Dylech gyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan am arweiniad pellach.

## Cwynion

Os ydych am wneud awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaethau Addysg a Phlant, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Rhif rhadffôn: | 0800 032 1099 |
| E-bost: | ssdcomments@denbighshire.gov.uk |
| Ysgrifennwch at: | Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl,<br>Sir Ddinbych. LL18 3DP |
| We: | sirddinbych.gov.uk/eichllais |

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.